Docusign Envelope ID: E9AD23D3-7AA1-803A-81F3-19D597A57851

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

GORCHYMYN O DAN ADRAN 21 O DDEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847

AR GYFER ATAL RHWYSTR

Gan y bydd Heol Nant, Llanelli yn orlawn ddydd Iau 26 Tachwedd 2026 ac yn debygol o fod wedi'i rhwystro, o'r gyffordd â Heol Beili Glas i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, am bellter o 80 metr rhwng 17:45 a 19:15 ar gyfer Digwyddiad Cynnau Goleuadau Nadolig Dyffryn y Swistir.

Bydd y llwybr amgen drwy Lon Yr Eglwys, Tegfynydd a Heol Beili Glas.

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, yn unol â'i bwerau o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y ffyrdd a enwyd uchod, y bydd y ffyrdd hynny'n cael eu cau i bob traffig cerbydau gan gynnwys beiciau pedal rhwng yr oriau a nodir uchod ddydd Iau 26 Tachwedd 2026 ar yr amod bod cerbydau'r gwasanaethau brys yn gallu cael mynediad i'r stryd heb oedi mewn argyfwng.

Ni fydd y Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag achosi i unrhyw gerbyd deithio neu aros ar neu yn y darnau ffyrdd y cyfeirir atynt ynddo os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y gwasanaethau tân neu ambiwlans neu gerbyd yng ngwasanaeth yr heddlu mewn unrhyw achos o'r fath sy'n cael ei ddefnyddio yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.

Rhaid i unrhyw berson sy'n cael cyfarwyddyd neu ganiatâd gan Heddwas yn ei lifrai, i deithio, reidio neu yrru cerbyd ymlaen neu achosi neu ganiatáu i gerbyd aros ar neu yn y darnau ffyrdd a ddisgrifir yn y Gorchymyn hwn yn ystod yr oriau dywededig ar y dyddiau dywededig ufuddhau i gyfarwyddiadau'r heddwas ac unrhyw heddwas arall yn ei lifrai, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu berson awdurdodedig arall.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN**)

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN **)**

ar y ddogfen hon)

ar yr 17eg o Dachwedd 2026)

ym mhresenoldeb:-)

Signed by:
Steven P Murphy
6947BF055CF64D2...

20431

Steven P Murphy

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil